OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 3054

# Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2002

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2002 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2002.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 1992" yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**1**).

**Diwygio Rheoliadau 1992**

**2.** Ynglŷn â'r blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2003, diwygir Atodlenni 2 a 4 i Reoliadau 1992 fel a ganlyn:—

(a) ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 yn lle "0.995" rhoddir "0.999"; a

(b) yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992 rhoddir yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

10 Rhagfyr 2002

(**1**) O.S. 1992/3238, a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439, 2000/3382 (Cy.220) a 2001/3910 (Cy.322).

(**2**) 1998 p.38.